# Astudiaeth Achos

## Uned Cyfeirio Disgyblion

Uned Cyfeirio Disgyblion Maes Derw,

Abertawe

Cyngor Dinas Abertawe



Ffigur 1: Rhoi gwersi beicio drwy dîm Teithiau Actif Sustrans. ©Sustrans

## Cefndir

Uned gyfeirio disgyblion gofrestredig ar gyrion Abertawe yw Maes Derw. Mae'r ysgol yn cefnogi anghenion unigol disgyblion i'w helpu i ailintegreiddio i ysgolion prif ffrwd neu bontio i addysg bellach neu gyflogaeth.

Mae llawer o'r disgyblion yn wynebu gorbryder a heriau iechyd meddwl, ac yn aml heb yr hyder i reidio beic. Caiff y rhan fwyaf ohonynt eu cludo gan dacsis a rhieni, gan arwain at fwy o lygredd o gerbydau ar dir yr ysgol.

O ystyried natur yr ysgol, does dim llawer o opsiynau ar gyfer newid modd cludiant i'r ysgol. Felly, bu'n rhaid i gynllun teithio llesol ganolbwyntio ar weithgareddau o fewn gatiau'r ysgol sy'n annog teithio llesol ymhlith disgyblion tra'n rhoi mwy o bwyslais ar gael staff i fodelu arferion teithio iach a chynaliadwy.

## Elfennau allweddol

Rhai o elfennau allweddol y cynllun oedd gwella storfeydd beiciau a sgwteri, darparu gweithdai i ddysgu am deithio llesol ac archwilio opsiynau cludiant amgen i leihau'r defnydd o geir preifat.

**Dyma rai o gamau'r cynllun:**

- cynnig bws cerdded i'r ysgol i ddisgyblion i gael rhagor ohonynt i gymryd rhan
- sicrhau bod pob disgybl yn cael cyfle i ddysgu reidio beic, e.e. drwy wersi gyda thîm Teithiau Llesol Sustrans
- darparu mwy o gyfleoedd beicio gan sicrhau bod stoc feiciau'r ysgol ar gael yn ystod amseroedd egwyl ar gyfer ymarfer.

Elfen allweddol i'r cynllun oedd datblygu sgiliau disgyblion a staff i gynnal beiciau'r ysgol. Roedd hyn nid yn unig yn rhoi sgiliau gwerthfawr iddynt ond hefyd yn meithrin ymdeimlad o falchder a pherchnogaeth wrth gadw'r beiciau mewn cyflwr da.

## Cyflawniadau

O ganlyniad uniongyrchol i gwblhau'r cynllun teithio llesol, mae cymuned yr ysgol i gyd wedi elwa o'r cysylltiadau rhwydweithio a sefydlwyd.

Yn arbennig, mae rhai o'r cysylltiadau hyn yn digwydd drwy'r coleg, sydd, ar ôl clywed am frwdfrydedd y disgyblion, bellach yn bwriadu creu llwybr hyfforddi uniongyrchol, fydd yn galluogi disgyblion hŷn i ddysgu cynnal a chadw beiciau gan gyrraedd safonau cenedlaethol, fydd yn rhoi cyfleon cyflogaeth a sgiliau trosglwyddadwy iddynt a allai fod yn werthfawr yn y dyfodol.

## Dyfyniadau

**"Hyrwyddwyd seiclo ymhlith y staff hefyd ac mae nifer y staff sy'n seiclo i'r gwaith o leiaf unwaith yr wythnos wedi cynyddu o 1 i 5."**

**"Mae nifer o'r disgyblion wedi mynd o fod yn methu reidio beic o gwbl i allu reidio'n annibynnol."**

*- Martin Thomas, Cydlynydd Addysg Awyr Agored Maes Derw*